Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a
Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays CF10 3NQ

14 Rhagfyr 2017

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet

**Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru**

Diolch am eich ymateb dyddiedig 20 Tachwedd a drafodwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 11 Rhagfyr.

Yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor, rwy'n ysgrifennu i ofyn am fanylion yr amserlen ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Erydu Arfordirol, ac yn arbennig pryd rydych chi'n disgwyl cwblhau'r adolygiad canol rhaglen cyn y diweddariad pellach arfaethedig ar weithredu argymhellion y Pwyllgor yn hwyr yng ngwanwyn 2018.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**